

# Polisi Diogelu Corfforaethol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cymeradwywyd		Cabinet		
Dyddiad		18/6/14	Cofnod Rhif	
Fersiwn	Disgrifiad o'r Rheswm am Newid	Awdur	Awdurdodi	Dyddiad Cyhoeddi
01	Cyhoeddiad Gwreiddiol	DL	JW	18/6/14
02	Adolygiad	DL	JW	3/6/2015
03	Adolygiad	DL	JW	23/2/16
04	Adolygiad	DL	JW	27/4/16
05	Adolygiad	DL	JW	2/6/16
06	Adolygiad	DL	JW	03/04/17
07	Diweddariad	SG/RL	JW	06/11/18

[Type here]

## **Diben**

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno “Polisi a Chanllaw Diogelu Plant ac Oedolion y Cyngor”.

Mae amcanion y Polisi Diogelu a'r Canllawiau fel a ganlyn:

- Pwysleisio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyflawni ei ymrwymadau cyfreithiol ym maes diogelu Plant ac Oedolion;
- Rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, cynghorwyr, gweithwyr a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor fod trefniadau clir mewn grym i ddiogelu ac amddiffyn Plant ac Oedolion;
- Bod gan staff y Cyngor a chynghorwyr ganllawiau clir ar gyfer pan all Plentyn neu Oedolyn fod mewn perygl o niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth.

## **Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i 'blant' o bob math ac i oedolion diamddiffyn dros 18 mlwydd oed, waeth beth fo'u rhyw, eu hoed, eu hethnigrwydd, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu crefydd neu eu cefndir diwylliannol.

Oherwydd natur y sefydliad, mae'n anochel y bydd y Cyngor mewn cyswllt â phlant ac oedolion diamddiffyn i raddau amrywiol ac felly, ein polisi yw bod canllawiau clir wedi eu sefydlu er mwyn diogelu a hyrwyddo eu lles yn ogystal ag er mwyn amddiffyn ein gweithwyr ac oedolion cyfrifol eraill rhag cyhuddiadau posibl o gam-drin.

## **Cyfrifoldebau**

Mae gan bob Cynghorydd, pob aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth ar gcontract gyfrifoldeb dros gadw at y gweithdrefnau a'r canllawiau a nodir yn y polisi hwn

## **Talfyriadau**

CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
AP	Amddiffyn Plant
DBS	Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
POVA	Amddiffyn Oedolion sy'n Ddiamddiffyn
VAWDASV	Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
SSWBA	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## **Cydraddoldeb**

Mae'n rhaid gweithredu'r Polisi Cydraddoldeb er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethu ar sail: Hil ac Ethnigrwydd; Anabledd; Oedran; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol; Crefydd a Chred; Yr Iaith Gymraeg neu Hawliau Dynol; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Ailbennu Rhywedd a Phriodas a Phartneriaeth Sifil.

## **Dogfennau Cysylltiedig:**

(Gweler Atodiad 7)

## Tabl Cynnwys

Adran	Teitl	Tudalen
1.0.	<a href="#">Cyflwyniad</a>	4.
2.0.	<a href="#">Amcanion</a>	6.
3.0.	<a href="#">Canlyniadau</a>	6.
4.0.	<a href="#">Rolau a Chyfrifoldebau</a>	7.
5.0.	<a href="#">Y Broses Atgyfeirio</a>	11.
6.0.	<a href="#">Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol</a>	14.
7.0.	<a href="#">Pwyllgor Gofal Cymdeithasol ac Iechyd</a>	15.
8.0.	<a href="#">Adrodd, Monitro ac Adolygu</a>	15.
Atodiad 1	<a href="#">Arwyddion o Gam-drin</a>	17.
Atodiad 2	<a href="#">Y Broses Atgyfeirio</a>	22.
Atodiad 3	<a href="#">Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio Diogel</a>	25.
Atodiad 4	<a href="#">Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion - TOR</a>	27.
Atodiad 5	<a href="#">Mesur Effaith a Monitro</a>	29.
Atodiad 6	<a href="#">Templed Polisi Gwasanaeth</a>	31.
Atodiad 7	<a href="#">Dogfennaeth Perthnasol</a>	32.

## 1.0. Cyflwyniad

Un o flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol ag sy'n bosibl.

- 1.2. Fel Cyngor, rydym yn credu fod gan bob Plentyn ac Oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl a'i gyfrifoldebau i roi arweiniad pendant i staff, Cyngorwyr, partneriaid a'r bobl hynny yr ydym yn eu gwasanaethu yn y maes allweddol hwn.
- 1.3. Mae "diogelu" yn berthnasol i bawb ym mhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor. Er mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Gwasanaeth Arweiniol ar gyfer delio ag ymholiadau sy'n ymwneud â honiadau / pryderon y gallai plant ac oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol, mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu Lles Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion, beth bynnag fo rôl yr unigolyn.
- 1.4. Mae "Diogelu" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion ac mae'n ymwneud â hyrwyddo:
  - Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol;
  - Diogelu rhag niwed ac esgeulustod;
  - Addysg, hyfforddiant a hamdden;
  - Cyfraniad at gymdeithas;
  - Lles cymdeithasol ac economaidd.
- 1.5. Er y dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda Phlant, Pobl Ifanc ac Oedolion fod yn ymrwymedig i ddiogelu a hybu eu lles, mae gan nifer o sefydliadau rolau neu ddyletswyddau statudol:
  - O dan Adran 28 Deddf Plant 2004, mae gan CBSC ddyletswydd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hybu lles plant;
  - O dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae gan CBSC ddyletswydd i sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i amddiffyn Oedolion ac i atal trosedd ac anhrefn wrth gyflawni ein swyddogaethau.
- 1.6. At ddibenion y polisi hwn, diffinnir plentyn fel unrhyw un nad yw wedi cyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed eto. Mae 'Plant' felly'n golygu Plant a Phobl Ifanc drwy'r ddogfen hon. Nid yw'r ffaith bod plentyn wedi cyrraedd 16 mlwydd oed, yn byw'n annibynnol neu mewn addysg bellach, yn aelod o'r lluoedd arfog, yn yr ysbyty neu yn y ddalfa mewn man diogel yn newid ei statws neu ei hawl o neu hi i wasanaethau neu amddiffyniad dan ddeddfwriaeth gyfredol.
- 1.7. Diffinnir Oedolyn fel unigolyn dros ddeunaw oed.
- 1.8. Mae Adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA) yn cyflwyno cysyniad 'Oedolyn mewn Perygl':

*(1) Mae 'Oedolyn mewn Perygl'...yn Oedolyn:*

*(a) Sy'n profi, neu mewn perygl o, gamdriniaeth neu esgeulustod;*

*(b) Angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) ac;*

(c) O ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r risg ohono.

1.9. Mae Adran 128 SSWBA yn amlinellu 'dyletswydd statudol newydd i adrodd 'Oedolion mewn Perygl':

(1) Os oes gan bartner perthnasol i awdurdod lleol reswm rhesymol i amau bod unigolyn yn oedolyn mewn perygl ac yn ymddangos i fod o fewn ardal yr awdurdod, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol o hynny.

Os oes gan y partner perthnasol reswm rhesymol i amau bod unigolyn yn oedolyn mewn perygl ac maent yn ymddangos i fod o fewn ardal awdurdod lleol arall i'r un y mae'n bartner perthnasol, yna mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.

(3) Os oes gan awdurdod lleol reswm rhesymol i amau bod unigolyn o fewn ei ardal yn oedolyn mewn perygl, unrhyw bryd, ac yn byw neu'n cynnig byw yn ardal awdurdod lleol arall (neu awdurdod lleol yn Lloegr), mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod hwnnw.

(4) Er diben yr adran hon, mae partner perthnasol i awdurdod lleol yn berson sy'n bartner perthnasol i awdurdod er dibenion adran 162.

1.10. Mae Adran 130 SSWBA yn amlinellu 'dyletswydd i adrodd 'Plant mewn Perygl':

(1) Os oes gan bartner perthnasol i awdurdod lleol reswm rhesymol i amau bod unigolyn yn blentyn mewn perygl ac yn ymddangos i fod o fewn ardal yr awdurdod, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol o hynny.

Os oes gan y partner perthnasol reswm rhesymol i amau bod unigolyn yn blentyn mewn perygl ac maent yn ymddangos i fod o fewn ardal awdurdod lleol arall i'r un y mae'n bartner perthnasol, yna mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.

(3) Os oes gan awdurdod lleol reswm rhesymol i amau bod plentyn o fewn ei ardal mewn perygl ar unrhyw adeg, ac yn byw neu'n cynnig byw o fewn ardal awdurdod lleol arall (neu awdurdod lleol yn Lloegr), mae'n rhai hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.

(4) Yn yr adran hon mae "plentyn mewn perygl" yn blentyn -

(a) sy'n profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu dulliau eraill o niwed, ac

(b) angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio).

(5) at ddibenion yr adran hon, partner perthnasol awdurdod lleol yw-

(a) unigolyn sy'n bartner perthnasol i awdurdod lleol er dibenion adran 162;

(b) tîm troseddu ieuencid, ar gyfer unrhyw ran o ardal sy'n disgyn o fewn ardal yr awdurdod.

(6) Ar gyfer darpariaeth am ddyletswydd awdurdod lleol i archwilio i blant mewn perygl, gweler adran 47 Deddf Plant 1989.

1.11. Nod Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella trefniadau ar gyfer gwella atal trais ar sail rhyw, cam-drin a thrais rhywiol. Mae diogelu dioddefwyr a chefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio yn cael ei amlygu gan ddyletswydd 'Holi a Gweithredu' staff gwasanaeth cyhoeddus i holi dioddefwyr posib am y posibilrwydd eu bod yn profi Trais yn erbyn Merched a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gweithredu i leihau dioddefaint a niwed.

1.12. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i nodi unigolion a theuluoedd diamddiffyn sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio gan bob math o eithafiaeth. Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'i arweiniad yn nodi y gall Plant ac Oedolion fod yn agored i ideolegau sy'n eu rhoi nhw, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol mewn perygl os byddant yn cael eu denu i weithredu ar greddau eithafol. Mae nodi unigolion sydd mewn perygl a phenderfynu pa gamau sydd eu hangen i'w chefnogi yn cael ei ategu gan y broses ymyrraeth amlasiantaeth 'Sianel' sy'n atal cyfranogiad parhaus.

1.13. Mae caethwasiaeth fodern yn cwmpasu caethwasiaeth, cam-fanteisio rhywiol, masnachu mewn pobl, llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig. Mae masnachwyr a meistri caethweision yn defnyddio pa bynnag ddull i reoli, twyllo a gorfodi unigolion i fywyd o gamdriniaeth, caethwasanaeth a thriniaeth annynol. Ym mis Mawrth 2015, cyfunodd a symleiddiodd y Mesur Caethwasiaeth Fodern droseddau sy'n bodoli eisoes i un Ddeddf gan sicrhau y gall troseddwyr dderbyn cosbau llym priodol. Mae'r Mesur hefyd yn cyflwyno grymoedd newydd i'r llysoedd osod cyfyngiadau ar unigolion i amddiffyn pobl rhag y niwed a achosir gan gaethwasiaeth fodern.

## **Amcanion**

- 2.1. Fel Cyngor rydym yn credu ei fod yn hollol annerbyniol i Blentyn neu Oedolyn gael eu cam-drin neu eu niweidio mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr egwyddorion canlynol sy'n ffurfio sail i'r Polisi a'r Canllawiau:
- Mae gan bob Plentyn ac Oedolyn (beth bynnag fo'u cefndir, eu diwylliant, eu hoedran, eu hanabledd, eu rhyw, eu hethnigrwydd, eu cred) hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, cam-drin, bwlio na gwahaniaethu; mae gan bob Plentyn ac Oedolyn yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, cam-fanteisio a cham-drin;
  - Byddwn fel Cyngor yn rhoi lle canolog i les Plant ac Oedolion yn ein polisiau a'n gweithdrefnau;
  - Fel Cyngor byddwn yn cydweithio'n agos gyda Phlant, eu Rhieni, Gofalwyr ac Oedolion, ac asiantaethau eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles Plant ac Oedolion;
  - Parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion drwy wrando arnynt a lleihau unrhyw risgiau a allai effeithio arnynt;
  - Buddsoddi mewn gwaith atalio ac ymyrraeth gynnar a cheisio osgoi sefyllfaoedd lle gall cam-drin neu honiadau o gam-drin neu niwed ddigwydd.

## **3.0. Canlyniadau**

- 3.1. Mae'r Polisi a'r Canllawiau yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu Plant ac Oedolion ac i'w hamddiffyn rhag cael eu cam-drin pan fyddant yn derbyn gwasanaethau a drefnir a ddarperir gan, neu ar ran y Cyngor.

3.2. Pan gyflwynir y Canllawiau, byddwn yn mesur eu heffaith yn rheolaidd er mwyn i gyflawni'r canlyniadau lefel uchel canlynol:

- Mae dealltwriaeth glir ymysg staff, cynghorwyr a'r rheiny sy'n gweithio ar ran y Cyngor o bolisiau a chanllawiau ar gyfer diogelu Plant ac Oedolion;
- Mae gweithdrefnau corfforaethol ac adrannol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisiau a'r Gweithdrefnau a gyflwynir yma;
- Mae trefniadau cyfathrebu clir a hygyrch ar waith ar draws yr holl sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am swyddogion allweddol ymhob Gwasanaeth sy'n gyfrifol am faterion diogelu Plant a Phobl Ifanc;
- Mae'r canllawiau hyn yn gyson gyda'r gweithdrefnau sy'n weithredol ar sail Cymru gyfan a phrotocolau cysylltiedig ar gyfer diogelu Plant ac Oedolion;

3.3 Bydd Strategaeth Hyfforddi yn nodi bob aelod o staff ddylai dderbyn hyfforddiant diogelu ac i ba lefel. Bydd hyfforddi Rheolwyr Diogelu Dynodedig ymhob gwasanaeth yn flaenoriaeth. Bydd staff a chynghorwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant ynglŷn â'r canllawiau a bydd hyn yn drefniant parhaus gyda'r sefydliad.

#### 4.0 Rolau a Chyfrifoldebau

- 4.1. Mae gan bob Cynghorydd, pob aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth gyfrifoldeb i gadw at y gweithdrefnau a'r canllawiau a nodir yn y polisi hwn.
- 4.2. Drwy ddilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau cywir, mae'n bosibl sicrhau bod y camau priodol yn cael eu gweithredu er mwyn delio ag unrhyw honiad neu bryder, bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n diogelu Plant ac Oedolion a bod staff yn gallu cynnal eu hunain yn ddiogel.
- 4.3. Mae gan bob aelod o staff, cynghorydd, gwirfoddolwr a darparwr gwasanaeth gyfrifoldeb ym maes diogelu. Mae'n bwysig iawn tynnu sylw at hyn.
- 4.4. Mae hyn yn golygu fod gan bob Gwasanaeth o fewn y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae a bod yn rhaid iddynt fod â pherchnogaeth yn y maes diogelu. Mae'n dilyn bod angen sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau clir ar waith o fewn pob Gwasanaeth yn y Cyngor i sicrhau bod ymchwiliadau / pryderon y gall Plant ac Oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol yn cael sylw dyledus. Yn ogystal, mae angen i bob gwasanaeth ddeall ymhle mae materion yn ymwneud â diogelu yn debygol o godi yn eu gwasanaeth penodol nhw a sicrhau bod ganddynt bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau ar waith i reoli'r rhain yn dda.
- 4.5. Mae'r ddogfen hon yn dwyn y polisi a'r canllawiau corfforaethol ym maes diogelu Plant ac Oedolion ynghyd a bydd yn gweithredu fel fframwaith i weithdrefnau pob gwasanaeth o fewn y Cyngor.
- 4.6. Tabl Rolau a Chyfrifoldebau:

Swydd	Cyfrifoldeb
Y Prif Weithredwr	Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu Plant ac Oedolion effeithiol ar waith, a'u bod yn cael eu dilyn.

Swydd	Cyfrifoldeb
	<p>Maent hefyd yn gyfrifol am ddatblygiad llywodraethu corfforaethol effeithiol a bodloni pob gofyniad statudol.</p>
<p>Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>Mae cyfrifoldeb terfynol a diwahân dros faterion diogelu yn gorwedd gyda'r Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn Plant a Phobl ifanc, Oedolion a Phobl Hŷn Diamddiffyn, ac maent yn gyfrifol am adrodd, ar lefel gorfforaethol, i Gynghorwyr ar eu heffeithiolrwydd.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Goruchwylio'r broses gweithredu, monitro a gwella gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn Plant ac Oedolion;</li> <li>○ Sicrhau bod trefniadau adrodd cadarn ar gyfer diogelu Plant ac Oedolion ar waith ac i adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Aelodau;</li> <li>○ Sicrhau bod y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gweithredu'n effeithiol;</li> <li>○ Sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o ganlyniad i Adolygiadau Arferion Plant / Oedolion a'u bod yn cael eu gweithredu fel sy'n briodol gan bob asiantaeth, gan gydnabod bod effeithiolrwydd trefniadau'n dibynnu ar ansawdd cyfraniad bob asiantaeth;</li> <li>○ Codi'r proffil, cefnogi'r polisi a sicrhau bod yn Cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda'r Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion;</li> <li>○ Sicrhau bod pob aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn deall ac yn gweithredu safonau uchel yn nhermau nodi risgiau ac arferion diogelu;</li> <li>○ Hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd am faterion yn ymwneud â diogelu Plant ac Oedolion a sicrhau bod arferion gwaith cymdeithasol yn datblygu yng ngolau gwaith ymchwil priodol;</li> </ul>



Swydd	Cyfrifoldeb
	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Codi safonau arferion gwaith cymdeithasol drwy oruchwyliaeth broffesiynol a chyfleoedd eraill i ddysgu ac adlewyrchu fel bod staff sy'n gweithio yn y maes diogelu yn cael cefnogaeth briodol;</li> <li>○ Cyflwyno sylwadau yn rhinwedd ei rôl statudol, ar adroddiadau'r Cabinet yn ymdrin â'r maes diogelu.</li> </ul> <p>Er bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles Plant ac Oedolion, y cyfarwyddwr Statudol yw'r Uwch Swyddog o fewn y Cyngor a chanddi hi y mae'r atebolrwydd terfynol a diwahân dros hyn.</p>
Rheolwyr Diogelu Dynodedig	<p>Bydd gofyn i bob Gwasanaeth o fewn y Cyngor enwebu "Rheolwr Diogelu Dynodedig ar gyfer mynd i'r afael â diogelu Plant ac Oedolion.</p> <p>Mae'r Rheolwyr Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Weithredu fel ffynhonnell allweddol o gyngor a chymorth i staff eraill y Gwasanaeth mewn perthynas â phob mater diogelu.</li> <li>○ Bod yn gyfarwydd gyda Pholisi a Chanllawiau Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â Diogelu Plant ac Oedolion ynghyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Pholisïau a Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Diamddiffyn (i'w ddiweddarau cyn bo hir – Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan);</li> <li>○ Sicrhau bod gweithdrefnau mewnol effeithiol i ymdrin â phryderon o fewn y Gwasanaeth drwy gydweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni hyn;</li> <li>○ Sicrhau bod y broses o gydymffurfio gyda'r Polisi a'r Canllawiau hyn yn cael ei monitro drwy adrodd yn rheolaidd i'r Panel Diogelu Corfforaethol;</li> <li>○ Mynd ar hyfforddiant perthnasol ar gyfer "Rheolwyr Diogelu Dynodedig".</li> </ul>

Swydd	Cyfrifoldeb
	<p><b>Dylai unrhyw aelod o staff sy'n pryderu am ymddygiad cydweithiwr tuag at Blant neu Oedolyn gysylltu â'r Rheolwr Diogelu Dynodedig o fewn y Gwasanaeth ar unwaith.</b></p>
<p><b>Penaethiaid Gwasanaeth</b></p>	<p>Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth – drwy eu Timau Rheoli – yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod pob gofyniad statudol, yn nhermau diogelu a hyrwyddo lles Plant ac Oedolion, yn derbyn sylw dyledus. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder yr hyfforddiant a ddarperir a chynnal cofnodion digonol o hyfforddiant staff.</p> <p>Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu staff yn derbyn gwiriad priodol drwy weithdrefnau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chanllawiau Recriwtio Diogel a bod eu staff yn cydymffurfio gyda'r Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion.</p> <p>Mae'n rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sefydlu trefniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion y polisi hwn a Pholisi Cofnodion Troseddol y Cyngor. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o bob gwiriad a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>Mae disgwyl iddynt gydlynu'r broses o baratoi Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion o fewn eu Gwasanaeth. Disgwylir bod y Polisi yn cael ei baratoi er mwyn amlygu trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer ymateb i faterion a all godi yn y maes diogelu.</p> <p>Bydd yn ofyniad ar gyfer pob Gwasanaeth yn y Cyngor i adrodd ar eu Polisiâu a'u Canllawiau Diogelu i'r Panel Corfforaethol dros Ddiogelu Plant ac Oedolion.</p>
<p><b>Rheolwyr Atebol</b></p>	<p>Mae pob Rheolwr Atebol yn gyfrifol am sicrhau bod y staff y maent yn gyfrifol drostynt yn derbyn yr hyfforddiant y mae arnynt ei angen, yn gymesur â'u cyfrifoldebau. Dylai pob Rheolwr sicrhau bod Diogelu yn eitem barhaol ar raglenni cyfarfodydd tîm.</p>
<p><b>Pob Aelod o Staff a Gwirfoddolwyr (gan gynnwys Llywodraethwyr Ysgolion)</b></p>	<p>Mae pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn gyfrifol am ymgymryd â'u dyletswyddau mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles Plant ac Oedolion. Mae gofyn iddynt weithredu mewn</p>

Swydd	Cyfrifoldeb
	<p>modd sy'n eu diogelu yn erbyn honiadau ffug o gam-drin cyn gynted â phosibl yn unol â'r polisi hwn. Mae'n rhaid iddynt dynnu sylw'r Rheolwr Dynodedig at faterion o bryder yn ymwneud â diogelwch Plant ac Oedolion o fewn eu Gwasanaeth.</p> <p>Mae gan bob aelod o staff, gwirfoddolwyr (gan gynnwys Llywodraethwyr Ysgolion) gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn mynd ar hyfforddiant diogelu gorfodol.</p>
<p>Contractwyr, Is-gontractwyr, neu Sefydliadau Eraill a noddwyd gan, neu ar ran Cyngor Conwy</p>	<p>Mae contractwyr, isgontractwyr neu sefydliadau eraill a noddwyd gan, neu ar ran y cyngor yn gyfrifol am drefn gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac Awdurdod Diogelu Annibynnol; yn ogystal â sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio gyda threfniadau rheoleiddio a dan gontract sy'n ymwneud â diogelu Plant ac Oedolion.</p> <p>Mae angen i rai sefydliadau gynnal hunanasesiad blynyddol o drefniadau diogelu, ac i adrodd canlyniadau, fel rhan o drefniadau monitro contract. Disgwylir y bydd hyn yn gymwys i fwy o sefydliadau dros amser. Mae contractwyr hefyd yn gyfrifol am hysbysu rheolwyr perthnasol y Cyngor am unrhyw bryderon sydd ganddynt ac i atgyfeirio unrhyw faterion amddiffyn.</p>
<p>Aelodau Etholedig</p>	<p>Bydd Aelodau Etholedig yn cael yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â diogelu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Yr Aelod Cabinet dros Blant, Teuluoedd a Diogelu fydd aelod sefydlog y Panel Diogelu Corfforaethol. Bydd y Panel hwn yn derbyn gwybodaeth mewn perthynas ag arferion gwaith a gweithdrefnau pob Gwasanaeth yn y Cyngor, gan ddarparu sicrwydd bod y Gwasanaethau yn bodloni eu dyletswyddau yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Corfforaethol. Yn ychwanegol at hyn, bydd y Panel yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â rheoli perfformiad bob Gwasanaeth er mwyn dangos eu bod yn rhyddhau eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu Plant ac Oedolion.</li> <li>○ Bydd gan Aelodau'r Panel rôl bwysig mewn herio gwybodaeth yn ymwneud â chanlyniadau'r broses rheoli perfformiad ar draws y gwasanaethau o safbwynt diogelu Plant ac Oedolion. Mae gan</li> </ul>

Swydd	Cyfrifoldeb
<p data-bbox="167 495 424 528">Aelodau Etholedig</p>	<p data-bbox="898 248 1445 349">Aelodau'r Panel ddyletswydd i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau corfforaethol yn cael eu datblygu ar draws y sefydliad.</p> <ul data-bbox="852 389 1445 1285" style="list-style-type: none"> <li data-bbox="852 389 1445 837">○ Bydd yr Aelod Cabinet dros Blant, Teuluoedd a Diogelu yn adrodd ar waith y Panel Diogelu Corfforaethol i bob Aelod Cabinet yn flynyddol. Bydd pob Aelod Cabinet yn derbyn sicrwydd gan yr Aelod Cabinet dros Blant, Teuluoedd a Diogelu bod rhaglen waith glir ar waith a bod polisiau a gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn yn y maes diogelu. Yn ychwanegol at hynny, mae'n rhaid adrodd bod trefniadau priodol ar waith i fonitro perfformiad pob Gwasanaeth o ran adolygu a gwerthuso polisiau.</li> <li data-bbox="852 878 1445 1113">○ Bydd cyfle yn yr Adroddiad Blynyddol i Aelodau Arweiniol sy'n gwasanaethu ar y Panel Diogelu Corfforaethol amlygu unrhyw rwystrau neu bryderon sydd ganddynt yn nhermau ymateb neu berfformiad unrhyw Wasanaeth o fewn y Cyngor.</li> <li data-bbox="852 1153 1445 1285">○ Bydd unrhyw wersi o Adolygiadau Arferion Plant / Oedolion yn cael eu nodi i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol.</li> </ul> <p data-bbox="802 1328 1445 1776">Bydd Aelodau'r Pwyllgor Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â gwaith y Panel Diogelu Corfforaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol. Bydd hyn yn darparu cyfle i Aelodau graffu a herio Aelodau'r Panel Corfforaethol. Bydd Aelodau'r Panel Craffu yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â rhaglen waith y Panel Corfforaethol, eu cynnydd yn erbyn y rhaglen waith a'r prif negeseuon sy'n deillio o drefniadau rheoli perfformiad. Bydd arsylwadau'r Pwyllgor Craffu yn llywio ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau rhaglen waith y Panel Diogelu Corfforaethol.</p> <p data-bbox="802 1816 1445 2085">Mae'n ofynnol bod pob Cyngorydd yn mynd ar hyfforddiant ynglŷn â maes diogelu Plant ac Oedolion. Bydd cofrestr yn cael ei gadw o'r rheiny sy'n mynd a bydd hyn yn cael ei adrodd fel rhan o drefniadau monitro perfformiad sy'n cael ei gydlynu gan y Panel Diogelu Corfforaethol. Bydd yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r Canllawiau hyn</p>

Swydd	Cyfrifoldeb
	ymysg Cyngorwyr Conwy ac yn cynyddu eu dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diogelu sy'n bodoli o fewn y Cyngor.

## 5.0. Y Broses Atgyfeirio

- 5.1. Dylai unrhyw aelod o staff sy'n pryderu am ddiogelwch unigolyn, neu am ymddygiad cydweithiwr tuag at Blant neu Oedolyn gysylltu â'r Rheolwr Dynodedig o fewn y Gwasanaeth **ar unwaith**.
- 5.2. Os nad yw'r Rheolwr Diogelu Dynodedig ar gael, yna mae'n rhaid atgyfeirio'r mater at y Tîm Un Pwynt Mynediad - am bryderon yn ymwneud â Gwasanaethau Plant ac Oedolion - am bryderon yn ymwneud â'r plentyn (nodir y manylion yn adran 5.6 isod). Mae'n hollbwysig **peidio** ag oedi.
- 5.3. Rhaid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith os oes plentyn neu oedolyn mewn perygl, neu fod amheuaeth o drosedd.
- 5.4. Dylid cysylltu â Tîm Dyletswydd Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol os yw'r mater yn codi ar ôl 5.00pm Ddydd Llun i Ddydd Gwener ac ar Benwythnosau a Gwyliau Banc.
- 5.5. (Am ragor o fanylion yn ymwneud ag arwyddion o gam-drin a gwybodaeth am y prosesau atgyfeirio, gweler [Atodiad 1 ac Atodiad 2](#) ).
  
- 5.6. Oedolyn mewn Perygl – Llwybrau a math o Gam-drin

### Llwybr Oedolion

Mae'r Ddeddf, canllaw statudol a rheoliadau yn esbonio sut y dylech weithio gydag oedolion mewn perygl



**Diffiniadau newydd** o 'oedolyn mewn perygl'



**Dyletswydd newydd** ar gyfer partneriaethau i adrodd oedolion mewn perygl



**Dyletswydd newydd** ar gyfer awdurdodau lleol i wneud ymholiadau



**Dirymu** Adran 47 Deddf Cymorth Gwladol 1948



### Camdriniaeth ac Esgeulustod

- Corfforol
- Rhywiol
- Seicolegol
- Emosiynol
- Ariannol
- Esgeulustod

Digwydd mewn unrhyw leoliad

Meysydd Ychwanegol Hunan-esgeulustod Caethwasiaeth Modern Camdriniaeth Sefydliadol Trais Domestig Troseddau er anrhydedd

- Troseddau treisgar
- Troseddau Rhywiol
- Troseddau yn erbyn eiddo
- Troseddau casineb
- Ecsbloetiaeth

### 5.7. Plentyn mewn Perygl – Llwybrau a math o Gam-drin:

#### Llwybr Plant

Mae'r Ddeddf, canllaw statudol a rheoliadau yn esbonio sut y dylech weithio gyda phlant mewn perygl.



**Diffiniadau newydd** o 'oedolyn mewn perygl'



**Dyletswydd newydd** ar gyfer partneriaethau i adrodd plant mewn perygl



Awdurdodau lleol i **wneud ymholiadau-Cysylltu a47 Deddf Plant 1989**



#### Cam-drin, Esgeulustod a Niwed

Mae cam-drin yn golygu camdriniaeth corfforol, rhywiol, seicolegol neu ariannol

Mae "niwed" yn golygu cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad

Mae esgeulustod yn golygu methiant i fodloni anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o fod yn amhariad ar les unigolyn

Mae "datblygiad" yn golygu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol

Mae "iechyd" yn golygu iechyd corfforol neu feddyliol

Mae "camdriniaeth" yn cynnwys cam-drin rhywiol a mathau o gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol (Deddf Plant 1989 a38)

Mae "amhariad" yn cynnwys amhariad o ganlyniad i glywed neu weld camdriniaeth i unigolyn arall (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)

5.8. Manylion Cyswllt Atgyfeiriad:

Pryder yn ymwneud ag Oedolyn	Pryder yn ymwneud a Phlentyn
<p><b><u>Un Pwynt Mynediad (SPoA)</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Yn ystod oriau swyddfa*:</b></li> <li>• <b>Ffôn: 0300 456 1111</b></li> <li>• <b>Tu allan i oriau swyddfa: 0300 123 3079</b></li> <li>• <b>Ffacs: 01492 576330</b></li> <li>• <b>Neges Destun (am ymholiadau cyffredinol): 07797 870361</b></li> <li>• <b>Ffurflen Adrodd Diogelu Oedolyn Gogledd Cymru</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unwaith rydych wedi llenwi'r ffurflen, anfonwch hi at: <a href="mailto:wellbeing@conwy.gov.uk">wellbeing@conwy.gov.uk</a></li> </ul> </li> </ul> <p><b>Os yw'r Oedolyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar 999.</b></p>	<p><b><u>Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Yn ystod oriau swyddfa*:</b></li> <li>• <b>Ffôn: 01492 575111</b></li> <li>• <b>Tu allan i oriau swyddfa: 0300 123 3079</b></li> </ul> <p>*Oraiau swyddfa 9.00am tan 5.00pm (Dydd Llun – Dydd Gwener)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Ffurflen Atgyfeirio - Plant a Theuluoedd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unwaith rydych wedi llenwi'r ffurflen, anfonwch hi at: <a href="mailto:duty@conwy.gov.uk">duty@conwy.gov.uk</a></li> </ul> </li> </ul> <p><b>Os yw' Plentyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar 999.</b></p>

5.9. Rheolwyr Diogelu Dynodedig Presennol:

Adran	Cyswllt
Addysg	Sian Pineau
Adnoddau Dynol	Isobel Mitchell
Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	Jane Williams
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	Jane Roberts
Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion)	Craig Richardson
Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant)	Ian Turner
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	Sam Parry
Gwasanaethau Cyfreithiol	Ceri Williams
Archwilio a Chaffael	Sioned Parry
Gwasanaethau Hamdden	Caroline Jones
Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau	Helen Hobson

Adran	Cyswllt
Gwasanaeth Llyfrgell	Sharon Morgan
Marchnata	Rachel Gill
Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda	Helen Davies
Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol	Debbie Anchors
Rheoli Ystadau ac Asedau	Geraint Williams

## 6.0. Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

- 6.1. Ar lefel gorfforaethol, dirprwyodd y Cabinet y cyfrifoldeb am gynnal trosolwg o drefniadau diogelu Plant ac Oedolion i'r Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion
- 6.2. Prif gyfrifoldebau'r Panel yw sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith er mwyn diogelu Plant ac Oedolion o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 6.3. Bydd y Panel yn gweithredu ar lefel Strategol er mwyn:
- Sicrhau Aelodau Arweiniol perthnasol bod gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn o ran materion sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion;
  - Dwyn gwaith rhyngadrannol yn y maes diogelu ynghyd a sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn gorfforaethol;
  - Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor;
  - Datrys unrhyw rwystrau posibl a allai fod yn rhwystr rhag bod â gweithdrefnau effeithiol a llwyddiannus yn eu lle;
  - Adnabod unrhyw fylchau mewn polisïau a chanllawiau corfforaethol, a sicrhau bod unrhyw fylchau o'r fath yn cael sylw, gan weithio'n briodol gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol;
  - Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i swyddogion ac aelodau;
  - Derbyn ac ystyried gwybodaeth ynglŷn â thueddiadau mewn perthynas â honiadau o gam-drin proffesiynol, a mabwysiadu cynlluniau gweithredu er mwyn ymateb petai'r angen yn codi;
  - Derbyn a herio gwybodaeth am berfformiad diogelu corfforaethol ac am y cynnydd wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith a gomisiynwyd;
  - Ystyried a deall goblygiadau Adolygiadau Arferion Plant / Oedolion a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithiol i argymhellion unrhyw adolygiadau o'r fath;
  - Derbyn a herio Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - Cymeradwyo polisi a Chanllawiau Diogelu pob Gwasanaeth yn y Cyngor a derbyn gwybodaeth am drefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas â'u cyfrifoldebau diogelu;
  - Llunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu priodol.
- 6.4. Mae gan y Panel rôl allweddol i'w chwarae yn sicrhau fod pob Gwasanaeth yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu'r Cyngor. Mae'r Panel hefyd yn sicrhau bod gan bob Gwasanaeth system rheoli perfformiad ar waith i ddangos eu bod yn ymgymryd â'u swyddogaethau mewn modd sy'n diogelu Plant ac Oedolion.



- 6.5. Mae'r Panel yn cyfarfod yn chwarterol. Mae Aelodaeth y Panel yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Mae'r Panel yn ddull allweddol o sicrhau bod y Rheolwyr Diogelu Dynodedig yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth ar draws y Cyngor. Mae hefyd yn ymdrin ag unrhyw fylchau yng ngweithdrefnau'r cyngor ym maes diogelu ynghyd â chyflwyno argymhellion i'r Panel Corfforaethol ynglŷn â diweddarau neu ddiwygio Polisi'r Cyngor yn y maes hwn. Mae copi o gylch gorchwyl y Panel yn Atodiad 5. Mae'r Panel yn cael ei wasanaethu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 6.6. Mae'r Cabinet yn derbyn adroddiad blynyddol gan y Panel hwn. Mae'r Uwch Dîm Rheoli hefyd yn derbyn yr adroddiad blynyddol, ac adroddir yn amlach na hyn yn ôl yr angen. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Prif Weithredwr bod diogelu yn cael sylw dyledus o fewn y Cyngor.
- 6.7. Mae'r Panel yn ategu rôl y Bwrdd Diogelu Oedolion / Plant. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau amlasiantaethol cadarn ar waith i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn a bod gan bartneriaid allweddol systemau diogelu priodol ar waith. Swyddogaeth Panel Corfforaethol Conwy ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion yw sicrhau trosolwg effeithiol o'r maes diogelu ar draws yr ystod eang o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac yn eu comisiynu. Ar eu pen eu hunain, ni all y trefniadau amlasiantaethol cyfredol ar gyfer plant ac oedolion ddarparu dyfnder digonol o sicrwydd i gwrdd ag anghenion sefydliadau cymhleth, yn enwedig o ystyried disgwyliadau cynyddol y cyhoedd a disgwyliadau rheoleiddwyr.

## **7.0. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

- 7.1. Bydd Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a Iechyd y Cyngor rôl o graffu ac o herio gwaith a pherfformiad y Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion yn flynyddol. Ystyrir bod hyn yn hollbwysig er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor feithrin profiad a dealltwriaeth yn y maes ac yn dod yn gwbl ymwybodol o ehangder a dyfnder gwaith y panel a'r trefniadau corfforaethol.
- 7.2. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith y Cyngor dros y bum mlynedd nesaf ac yn dynodi blaenoriaethau a chymau gweithredu clir i ymateb i'r blaenoriaethau hyn. Caiff Cynllun Cyflawni Blynyddol ei lunio hefyd i alluogi monitro rheolaidd.
- 7.3. Un o flaenoriaethau'r Cynllun yw sicrhau bod "Pobl yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol a phosibl". Cyflwynir adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Cabinet a chytunwyd hefyd ar set o ddangosyddion lefel uchel. Bydd y trefniadau hyn yn ategu'r adrodd a wneir wrth y Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu plant ac Oedolion.

## **8.0. Adrodd, Monitro ac Adolygu**

- 8.1. Bydd Adroddiad Blynyddol y Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Polisi a'r Canllawiau Corfforaethol. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Yn ogystal, ar ran y Cyngor yn ei gyfanrwydd, bydd y Panel Diogelu yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel rhan o'r gofynion o dan a28 Deddf Plant 2004.
- 8.2. Y bwriad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol bob mis Medi. Rhoddir sylw penodol ar y dechrau i'r Dangosyddion Perfformiad canlynol. Rhagwelir y bydd y set ddata hon yn esblygu dros amser i greu darlun gwell o ehangder y gweithgarwch diogelu:
- % y staff sy'n dechrau mewn swydd gyda dau dystlythyr;
  - % y staff sy'n dechrau swydd gyda gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, os yn berthnasol

- % o weithwyr sy'n cwblhau'r broses Cynefino Corfforaethol o fewn amserlenni priodol;
- Nifer o atgyfeiriadau gan staff sy'n poeni am bobl ddiameddiffyn
- % y Cynghorwyr sy'n mynd i hyfforddiant diogelu.

- 8.3. Bydd y Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion yn derbyn adroddiad yn nodi perfformiad y dangosyddion yn y maes diogelu a'r cynnydd o ran y rhaglen waith. Mae'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant eisoes yn derbyn data craidd yn rheolaidd. Bydd gofyn bod cynllun gweithredu eglur ar gyfer unrhyw bryderon ynglŷn â thanberfformio/llithriadau er mwyn ymateb i'r pryderon. Bydd diogelu hefyd yn "drywydd ymholi" posibl wrth herio gwasanaethau.
- 8.4. Caiff y Polisi Diogelu hwn ei adolygu'n flynyddol neu os digwydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu newidiadau mewn arferion gweithio a allai ddeillio o achosion neu honiadau.
- 8.5. Mae manylion pellach wedi eu cynnwys yn Atodiad 5 ynglŷn â sut y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i fesur effaith a monitro effeithiolrwydd.

## **ATODIAD 1**

### **Arwyddion o Gam-drin**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phlant ac oedolion. Mae cod ymarfer unigol ar gyfer y ddau faes ac mae angen bod staff perthnasol yn gyfarwydd â'r dogfennau hyn.

### **Plant Mewn Angen**

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn ffurfiau o gam-drin plentyn. Gall unigolyn gam-drin neu esgeuluso plentyn unai yn uniongyrchol drwy beri niwed, neu'n anuniongyrchol drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn amgylchedd deuluol neu sefydliadol neu gymunedol; gan y rhai y maent yn eu hadnabod; neu, yn fwy anaml, gan ddieithryn. Fe allant gael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, neu blentyn neu blant eraill. Ceir pedwar math o gam-drin plant. Cant eu diffinio yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* fel a ganlyn:

### **Cam-drin Corfforol**

Gall cam-drin corfforol olygu taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch mewn plentyn, neu'n eu cymell yn fwriadol.

### **Gall arwyddion cam-drin corfforol gynnwys:**

- cleisio, marciau neu anafiadau ar unrhyw ran o'r corff na ellir eu hesbonio
- nifer o gleisiau – mewn clystyrau yn aml ar ran uchaf y fraich a'r tu allan i'r glun
- llosgiadau sigarét
- marciau brathu dynol
- esgyrn wedi torri
- sgaldio, gyda marciau'n tasgu'n mynd at i fyny
- nifer o losgiadau gydag ymyl wedi'i ddiffinio'n glir.

D.S. Bydd y rhan fwyaf o blant yn cael toriadau a chleisiau wrth fyw bywyd o bant i bentan. Dylid dehongli anafiadau bob amser yng ngoleuni hanes meddygol a chymdeithasol y plentyn, ym mha gam datblygiadol y maent ac yng nghyd-destun yr esboniad a roddwyd. Mae'r rhan fwyaf o gleisiau damweiniol i'w gweld dros rannau esgyrnog y corff, e.e. penelinoedd, pen-gliniau, crimogau ac yn aml ar flaen y corff. Dangosyddion pwysig o gam-drin corfforol yw cleisiau neu anafiadau sydd naill ai heb eu hesbonio neu sy'n anghyson a'r esboniad a roddwyd, neu sy'n weladwy ar rannau 'meddal' y corff lle bo anafiadau damweiniol yn annhebygol, e.e. bochau, abdomen, y cefn a'r pen ôl.

### **Gall newid mewn ymddygiad hefyd fod yn arwydd o gam-drin corfforol:**

- bod ofn i rywun ofyn i'r rhieni am esboniad
- ymddygiad ymosodol neu byliau difrifol o dymer
- cilio pan fo rhywun yn agosáu neu'n eu cyffwrdd
- amharodrydd i dynnu dillad oddi amdanynt, er enghraifft mewn tywydd poeth
- iselder neu ymddygiad tawedog
- rhedeg oddi cartref

### **Cam-drin Emosiynol**

Cam-drin emosiynol yw camdriniaeth emosiynol barhaus i blentyn er mwyn achosi effeithiau niweidiol parhaus a difrifol o ran datblygiad emosiynol plentyn. Gall hyn gynnwys cyfleu i blant eu bod yn ddi-werth neu fod neb yn eu caru, neu greu'r argraff nad ydynt yn ddigon da neu ddim ond yn werth rhywbeth os ydynt yn bodloni anghenion rhywun arall. Gall gynnwys rhoi disgwyliadau datblygiadol amhriodol ar blant neu ddisgwyliadau amhriodol o ystyried eu hoedran. Gall gynnwys peri plant i deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ynghlwm â phob math o gam-drin plentyn, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

### **Gall newidiadau mewn ymddygiad sy'n arwyddion o gam-drin emosiynol gynnwys:**

- ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troelli gwallt, siglo
- methu â chwarae
- bod ofn gwneud camgymeriadau
- nam lleferydd sydyn
- hunan-niweidio
- bod ofn i rywun fynd at riant ynghylch eu hymddygiad
- oedi datblygiadol o ran cynnydd emosiynol

### **Cam-drin Rhywiol**

Mae cam-drin rhywiol yn ymwneud â gorfodi neu annog plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nid o reidrwydd yn ymwneud â lefel uchel o drais, prun ai a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgarwch gynnwys cyffwrdd corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd anhreiddiol fel mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad. Gallent hefyd gynnwys gweithgarwch di-gyffwrdd, fel cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, delweddu rhywiol, gwylio gweithgarwch rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol, neu baratoi plentyn i bwrpas rhyw i'w gam-drin (gan gynnwys ar y rhyngwyd).

### **Gall arwyddion cam-drin rhywiol gynnwys:**

- poen neu gosi o gwmpas yr organau rhywiol
- cleisio neu waedu o gwmpas yr organau rhywiol
- clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
- rhedlif neu haint gweiniol
- poenau stumog wrth gerdded neu eistedd
- Beichiogrwydd

### **Gall newidiadau mewn ymddygiad sy'n arwyddion o gam-drin rhywiol gynnwys:**

- newidiadau sydyn neu anesboniadwy mewn ymddygiad e.e. troi'n ymosodol neu'n dawedog
- bod ofn cael eu gadael â pherson neu grŵp penodol o bobl
- cael hunllefau
- rhedeg oddi cartref
- gwybodaeth rywiol y tu hwnt i'w hoed, neu eu lefel datblygiadol
- lluniau neu iaith rywiol
- gwlychu'r gwely
- problemau bwyta megis gorfwyta neu anorecsia
- hunan-niwed neu anffurfio, sydd weithiau'n arwain at roi cynnig ar hunanladdiad
- dweud bod ganddynt gyfrinachau na allan eu dweud wrth unrhyw un
- cam-drin sylweddau
- bod â ffynonellau o arian yn fwyaf sydyn
- ddim yn cael bod â ffrindiau (yn enwedig yn ystod y glaslencyndod)
- ymddwyn mewn modd rhywiol ddi-gêl tuag at oedolion

### **Esgeulustod**

Esgeulustod yw methiant parhaus i gwrdd ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at ddiffyg difrifol yn natblygiad neu iechyd y plentyn. Gall gynnwys rhiant neu ofalwr yn methu â darparu digon o fwyd, lloches a dillad, yn methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethu â sicrhau mynediad at ofal meddygol neu driniaeth briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol y plentyn.

### **Gall arwyddion corfforol esgeulustod gynnwys:**

- eisiau bwyd yn gyson, weithiau'n dwyn bwyd oddi ar blant eraill
- yn fudr neu'n 'drewi' o hyd
- colli pwysau, neu o dan bwysau'n gyson
- dillad anaddas ar gyfer y tywydd.

### **Gall newidiadau mewn ymddygiad sy'n arwyddion o esgeulustod gynnwys:**

- cwyno eu bod wedi blino o hyd
- peidio gofyn am gymorth meddygol ac/neu yn methu â mynychu apwyntiadau
- bod â nemor ddim ffrindiau
- crybwyll cael eu gadael ar eu pen eu hunain neu heb eu goruchwyllo

Ni fwriedir i'r diffiniadau a'r dangosyddion hyn fod yn rhestr gyflawn, ond yn hytrach eu bwriad yw bod yn ganllaw i'ch cynorthwyo. Mae'n bwysig hefyd cofio y gall llawer o blant arddangos rhai o'r dangosyddion hyn ar ryw adeg neu'i gilydd, ac na ddylid ystyried presenoldeb un neu ragor ohonynt fel prawf bod cam-drin yn digwydd. Gall fod rhesymau eraill dros newid mewn ymddygiad megis profedigaeth neu eni babi newydd i'r teulu neu dor-perthynas rhwng rhieni/gofalwyr. Wrth asesu a yw dangosyddion yn gysylltiedig â cham-drin ai peidio, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol wastad eisiau eu deall mewn perthynas â datblygiad y plentyn a'r cyd-destun.

## Oedolion sydd Angen eu Hamddiffyn

### Categoriâu Cam-drin

Gall unigolyn diamddiffyn brofi camdriniaeth mewn nifer o ffyrdd. Nid yw'n anarferol i oedolyn gaiff ei gam-drin ddiodeff mwy nac un math o gamdriniaeth. O ganlyniad, dylid pwysu a mesur effaith y cam-drin ar yr unigolyn a'i ddifrifoldeb ymhob achos.

Mae *Mewn dwylo diogel* yn nodi pum prif gategori o gam-driniaeth:

Corfforol

Rhywiol

Ariannol

Emosiynol neu Ffisiolegol

Esgeulustod

### Cam-drin Corfforol

Cam-drin corfforol yw unrhyw boen corfforol, diodeffaint neu anaf a achosir yn ddiangen gan unigolyn sydd â chyfrifoldeb, sy'n gyfrifol, sydd â gwarchodaeth neu'n gofalu am, neu sydd mewn swydd o ymddiriedaeth, i unigolyn diamddiffyn. Gall camdriniaeth gorfforol hefyd gael ei chyflawni gan oedolyn diamddiffyn i un arall.

### Cam-drin Rhywiol

Mae cam-drin oedolion yn rhywiol yn cyfeirio at ymwneud oedolyn diamddiffyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â gweithgaredd rhywiol y maent yn amharod neu lle nad ydynt yn gallu rhoi cydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys, neu lle nad ydynt yn llwyr ddeall, neu sy'n amharchu'r tabŵs cymdeithasol o rolau teuluol, fel llosgach. Gall camdriniaeth rywiol hefyd gael ei chyflawni gan un oedolyn diamddiffyn i un arall.

Mae unrhyw weithgarwch rhywiol na chydysynnir yn rhydd iddo yn drosedd. Pan gam-fanteisir ar ymddiriedaeth, gall gweithgarwch rhywiol ymddangos fel pe bai cydsyniad, ond mae'n annerbyniol oherwydd y gwahaniaeth o ran pŵer a dylanwad rhwng y bobl sydd ynghlwm ag o.

Mae camdriniaeth rywiol hefyd yn cynnwys ymwneud â phuteindra neu 'fasnachu' oedolion diamddiffyn yn rhywiol, oedolion nad oes ganddynt y gallu i gydsynio.

### Cam-drin Emosiynol neu Seicolegol

Cam-drin emosiynol neu seicolegol yw pan fo unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth, neu lle disgwylir hynny, yn peri diodeffaint meddyliol i unigolyn diamddiffyn. Gall camdriniaeth emosiynol / seicolegol hefyd gael ei chyflawni gan un oedolyn diamddiffyn i un arall.

Mae cam-drin emosiynol a seicolegol, gan gynnwys bwlio, sy'n fwriadol fel arfer, ymddygiad niweidiol sy'n cael ei ailadrodd dros amser, a all gynnwys camdriniaeth gorfforol, ond sy'n aml ar lafar (galw enwau a bygythiadau). Mae'n gallu tanseilio hunanhyder, gall achosi i'r diodeffwr fynd yn fwy ynysig a gall weithiau arwain at hunan-niweidio.

Gall cam-drin emosiynol a seicolegol, gynnwys **bwlio ac aflonyddu**, fod yn gynnil iawn, er enghraifft, gall gymryd ffurf anwybyddu neu eithrio'r diodeffwr. Gall cam-drin o'r fath fod yn uniongyrchol, megis peidio ag ymateb i'r person, neu'n anuniongyrchol, megis rhoi ffafriaeth annheg i berson arall.

Gall cam-drin emosiynol a seicolegol fod yn gronnol, gan gronni o bosibl dros fisoedd neu hyd yn oed flynyddol. Gall gynnwys un person neu fwy a gall fod yn rhan o'r diwylliant o fewn sefydliad neu wasanaeth.

Enghraifft arall o gam-drin seicolegol fyddai bod oedolyn diamddiffyn yn cael ei annog neu ei gymell i gyflawni trosedd neu gamdriniaeth. Byddai enghreifftiau o'r fath yn cynnwys annog rhywun i ddwyn, i ymddwyn yn dreisgar neu i gyflawni troseddau rhywiol. Bu enghreifftiau hefyd o oedolion diamddiffyn yn cael ei hecsbloetio i gyflawni gweithredoedd o eithafiaeth radical.

Wrth benderfynu a ddigwyddodd achos o gam-drin emosiynol a seicolegol, yr effaith ar yr oedolyn diamddiffyn yw'r hyn sy'n cyfri. Gall gweithredoedd unigol ymddangos yn ddi-nod ac efallai mai digwyddiad unigryw ydoedd, ond os ydynt yn rhan o batrwm ehangach o gam-drin y mae oedolyn diamddiffyn yn ei brofi efallai y bydd yr effaith arnynt hwy yn sylweddol. Felly, ar bob achlysur rhaid ystyried ym mha gyd-destun y mae'r oedolyn diamddiffyn wedi profi'r weithred wrth benderfynu a ddigwyddodd camdriniaeth ai peidio.

### **Cam-drin Ariannol neu Faterol**

Cam-drin ariannol neu faterol yw pan fo unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth, neu lle disgwylir hynny, yn dwyn neu'n camddefnyddio arian, eiddo neu adnoddau unigolyn. Ffurfiâu cyffredin o gam-drin ariannol yw pan gamddefnyddir budd-daliadau oedolyn diamddiffyn gan eraill neu pan roir pwysau diangen i newid ewyllys. Gall camdriniaeth ariannol / materol hefyd gael ei chyflawni gan un oedolyn diamddiffyn i un arall.

### **Esgeulustod**

Esgeulustod yw methiant unrhyw unigolyn lle disgwylir y gellir ymddiried ynddynt a/neu sydd â chyfrifoldeb, sy'n gyfrifol, yn gofalu neu sydd â gwarchodaeth dros unigolyn diamddiffyn i ddarparu'r lefel honno o ofal y byddai unigolyn rhesymol yn y sefyllfa honno'n ei ddarparu. Gall esgeulustod fod yn droseddol neu heb fod yn droseddol. Hefyd gall fod o ganlyniad i weithrediadau bwriadol neu anfwriadol.



## **ATODIAD 2 – Gweithdrefnau Atgyfeirio**

### **Adnabod ac Atgyfeirio**

Gwyddom y gallai amheuron o gamdriniaeth fod ar sail ‘pryderon’ yn hytrach na ‘ffeithiau’ pendant. Gall pryderon am ddiogelu godi mewn nifer o wahanol gyd-destunau, gan gynnwys pan fôn eisoes yn hysbys i’r gwasanaethau cymdeithasol. Gellir a dylid rhannu pryderon gyda’r gwasanaethau cymdeithasol trwy wneud atgyfeiriad, **yn defnyddio’r ffurflen atgyfeirio safonol sydd ar gael ar wefan Conwy (ar gael yn Adran 5.0 y Polisi, uchod).**

Tra na fydd pryderon o reidrwydd yn ysgogi ymchwiliad, maent o gymorth wrth greu darlun, ynghyd â phryderon a ddaw o ffynonellau eraill, a all fod yn arwydd fod rhywun yn dioddef o niwed.

Mewn achosion honedig o gam-drin neu pan fo amheuaeth o gam-drin gan weithiwr proffesiynol neu weithiwr unigol, dylid llywio’r camau gweithredu hefyd gan y gweithdrefnau sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 1V Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, ym Mholisiâu a Gweithdrefnau Interim Cymru yng ngweithdrefnau Conwy ei hun ynglŷn â cham-drin proffesiynol a rhannu pryderon.

### **Gwneud atgyfeiriad**

Mae’n rhaid i chi hefyd roi gwybod i’r Gwasanaethau Cymdeithasol am eich pryderon cyn gynted â bod problem, amheuaeth neu bryder am blentyn yn dod i’r amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, dylid atgyfeirio at wasanaethau argyfwng y gwasanaethau cymdeithasol neu at yr heddlu. Dylid cadarnhau pob atgyfeiriad a wneir dros y ffôn neu a wneir yn bersonol, yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith, yn ddelfrydol gan ddefnyddio’r ffurflen gyfeirio safonol. Dylai’r sawl sy’n gwneud yr atgyfeiriad roi cymaint o’r wybodaeth ganlynol ag y bo modd i’r swyddog cyswllt cyntaf/gweithiwr cymdeithasol sy’n derbyn yr atgyfeiriad:

Natur y pryderon;

- Sut a pham mae’r pryderon hynny wedi codi;
- Enw, cyfeiriad llawn a dyddiad geni (neu oedran) y plentyn / yr oedolyn y mae pryder amdanynt;
- Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni/oedrannau aelodau’r teulu, ynghyd ag unrhyw enwau eraill y maent yn eu defnyddio neu a ddefnyddir i’w hadnabod;



- Dylid cofnodi enwau a pherthynas pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant / gwarcheidwad neu rôl gofalwr, os ydynt yn hysbys;
- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni partner y rhiant;
- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni unrhyw oedolion eraill sy'n byw yn y cartref;
- Enwau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud a'r teulu, gan gynnwys, er enghraifft, enw ysgol a meddyg teulu'r plentyn; Unrhyw wybodaeth sydd gennych am anghenion datblygiadol y plentyn / anghenion gofal yr oedolyn a gallu ei riant neu ofalwyr i ymateb i'r anghenion hyn yng nghyd-destun y teulu a'r amgylchedd ehangach; Unrhyw wybodaeth sy'n effeithio ar ddiogelwch staff: Yn achos oedolion diamddiffyn mae angen ystyried capasiti a risgiau'r unigolyn sydd dan sylw ynghyd ag amgylchedd diogel a chadarnhaol;
- Rhoi lles a diogelwch y plentyn neu'r oedolyn uwchlaw pob ystyriaeth arall;
- Dylid mynd ati i greu perthynas gyfartal yn seiliedig ar ymddiriedaeth sy'n grymuso plant ac oedolion i rannu yn y broses o wneud penderfyniadau;
- Dylid bod yn esiampl ragorol i blant ac oedolion diamddiffyn.

## **NI DDYLID**

Cyffwrdd neu ganiatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym neu iaith amhriodol neu wneud sylwadau rhywiol awgrymog;

Anwybyddu honiadau a wnaed gan blentyn neu oedolion diamddiffyn; dylid rhoi gwybod ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu i'r Heddlu am unrhyw honiad neu ddatgeliad o gam-drin gan blentyn neu oedolion diamddiffyn.

Gwahodd na chaniatáu i blant neu oedolyn diamddiffyn ddod i'ch cartref a bod ar eu pennau eu hunain yn eich cwmni;

Mynd i ardaloedd o fewn adeiladau'r Cyngor sydd wedi eu neilltuo'n benodol ar gyfer y rhyw arall;

Defnyddio'r rhyngwrwyd, dyfeisiadau electronig na ffonau i gael mynediad at safleoedd pornograffi plant;

Lledaenu gwybodaeth gyfrinachol ynghylch achosion unigol i unrhyw un heblaw bod gweithdrefnau adrodd cydnabyddedig yn cael eu dilyn.

*\* Oedolyn diamddiffyn yw person dros 18 mlwydd oed na all ofalu amdanynt eu hunain, nac amddiffyn eu hunain.*

Dylai gweithwyr unigol, gweithwyr proffesiynol a chontractwyr annibynnol fod yn ymwybodol na allant aros yn ddiennw wrth atgyfeirio achos. Fodd bynnag, gall y cyhoedd aros yn ddiennw, os ydynt yn dymuno.

Efallai y bydd gofyn i'r gweithiwr unigol neu'r gweithiwr proffesiynol sy'n atgyfeirio'r achos gyflawni rhai neu'r cyfan o'r tasgau canlynol, a dylent fod yn barod ac yn fodlon i'w cyflawni:

- Cyfrannu at drafod y Strategaeth neu Cyfarfod Strategaeth
- Cynorthwyo ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant / Ymchwiliad Diogelu Oedolion Diamddiffyn
- Darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer Cynhadledd Achos
- Mynd i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant / Amddiffyn Oedolion
- Cyfrannu at yr Asesiad

Cyfrifoldeb gweithwyr unigol a gweithwyr proffesiynol yw sicrhau bod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn ag amddiffyn plant yn cael eu cymryd o ddifri ac yn cael sylw. Mae pob gweithiwr unigol a phob gweithiwr proffesiynol yn atebol am ei rôl ei hun yn y broses amddiffyn, ac os bydd gweithiwr unigol neu weithiwr proffesiynol yn dal i fod yn bryderus, dylent ail-atgyfeirio a/neu ddod â'r mater i sylw uniongyrchol yr uwch reolwr plant neu'r uwch reolwr oedolion neu yn eu habsenoldeb, i sylw'r person sy'n dirprwyo drostynt ac yn gyfrifol am amddiffyn. Ymhob sefyllfa o'r fath, dylid rhoi gwybod i'r gweithiwr proffesiynol dynodedig ac i reolwr atebol y gweithiwr unigol neu'r gweithiwr proffesiynol ar gyfer diogelu plant.



### **ATODIAD 3**

#### **Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio Diogel**

#### **COD YMDDYGIAD AC ARFERION GWEITHIO DIOGEL**

1. Datganiad a disgrifiad yw'r cod ymddygiad hwn o safonau proffesiynol yr arferion syn ofynnol gan holl staff y Cyngor wrth gyflawni eu dyletswyddau beunyddiol.
2. Mae'r cod ymddygiad yn adlewyrchu arferion presennol a'r disgwyl yw y byddai gweithwyr yn gallu adnabod y safonau canlynol fel y rhai y byddant yn anelu at eu hefelychu'n ddyddiol.
3. Rhagwelir fod y cod ymddygiad hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan staff y Cyngor ac o sut y bydd y cyflogwr yn cefnogi eu staff i wneud gwaith yn effeithiol ac mewn modd sy'n parchu anghenion unigolion.
4. Dylai pob aelod o staff fod yn esiampl dda o ran ymddygiad i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu. Mae'r canllawiau canlynol yn manylu ar enghreifftiau o arfer da y mae'n rhaid eu defnyddio, ynghyd â chodau ymddygiad penodol (e.e. codau ymddygiad CBSC), a allai fod yn berthnasol i swyddogaethau, gweithgareddau, neu ddigwyddiadau penodol.

Dylech fod yn barod i'r cyhoedd graffu arnoch chi ar unrhyw adeg wrth weithio gyda phlant ac oedolion, a dylech osgoi sefyllfaoedd pan fo Cynghorydd, aelod o staff, gwirfoddolwr neu ddarparwr gwasanaeth ar ei ben ei hun gyda phlentyn neu blant ac oedolion diamddiffyn heb fod yno unrhyw un arall yn dyst i'r hyn sy'n digwydd;

Dylech ddilyn y broses y mae'n ofynnol ei dilyn er mwn adrodd am ddigwyddiadau, e.e. am ddigwyddiad o bwys yn ymwneud ag iechyd a diogelwch;

Mae gan blant ac oedolion yr hawl i breifatrwydd, cydraddoldeb, parch ac urddas ac amgylchedd diogel a chadarnhaol;

Mae'n rhaid i gynghorwyr, staff, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaethau ar contract roi blaenoriaeth i les a diogelwch y plentyn neu'r oedolyn cyn pryderu am berfformiad;

Os bydd plentyn neu oedolyn yn cyrraedd gweithgaredd neu wasanaeth yn dangos arwyddion neu symptomau sy'n achosi pryder i chi, mae'n rhaid i chi ymddwyn yn briodol a dilyn gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi; Byddwch yn ymwybodol o'r angen i sicrhau arferion diogel wrth gwrdd â phlant ac oedolion.

## **DYLECH**

Gweithiwch yn unol â'r polisi diogelu hwn. Os oes amheuaeth, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Dynodedig yn eich Adran;

Gweithio mewn amgylchedd agored (e.e. dylech osgoi sefyllfaoedd preifat neu sefyllfaoedd na ellir eu gweld ac yn hytrach dylech annog amgylchedd agored, h.y. dim cyfrinachau);

Trin pob plentyn ac oedolyn yn deg gyda pharch ac urddas;  
Rhoi lles pob plentyn ac oedolyn yn gyntaf;  
Sicrhau bod pellter diogel a phriodol gyda chyfranogwyr (e.e. nid yw'n briodol cael perthynas agos gyda phlentyn neu oedolyn);

Creu perthynas gyfartal yn seiliedig ar ymddiriedaeth sy'n grymuso plant ac oedolion i rannu yn y broses o wneud penderfyniadau;

Cael y wybodaeth fwyaf diweddar ynglŷn â hyfforddiant a materion diogelu;

Bod yn esiampl ardderchog – mae hyn cynnwys peidio ag ymysgu, yfed alcohol na rhegi yng nghwmni plant ac oedolion;

Sicrhau bod offer ffotograffig neu ffilmio'n cael ei ddefnyddio'n briodol a bod rhiant neu ofalwr i'r sawl sy'n cymryd rhan wedi rhoi eu caniatâd;  
Cadw cofnodi ysgrifenedig o unrhyw anaf, ynghyd â chofnod o unrhyw driniaeth a roddwyd yn unol â pholisi'r Cyngor;

## **NI DDYLID**

Cyffwrdd neu ganiatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym neu iaith amhriodol neu wneud sylwadau rhywiol awgrymog;

Gwneud i blentyn grio fel modd o reoli, na defnyddio unrhyw dechnegau rheoli ymddygiad sydd heb eu hawdurdodi ym mholisiau a gweithdrefnau'r Cyngor;

Anwybyddu honiadau gan blentyn neu oedolyn. Dylid rhoi gwybod ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu i'r Heddlu am unrhyw honiad neu ddatgeliad o gam-drin gan blentyn neu oedolion diamddiffyn.

Ymgymryd â thasgau o natur bersonol dros blant neu oedolion y byddai modd iddynt eu gwneud drostynt eu hunain;

Gwahodd na chaniatáu i blant neu oedolyn diamddiffyn ddod i'ch cartref a od ar eu pennau eu hunain yn eich cwmni;

Mynd i ardaloedd sydd wedi eu neilltuo'n benodol ar gyfer y rhyw arall;

Defnyddio'r rhyngwyd, dyfeisiadau electronig na ffonau i gael mynediad at safleoedd pornograffi plant;

5. Bydd gweithiwr sy'n torri unrhyw un o amodau'r cod ymddygiad uchod yn wynebu ymchwiliad a gallent wynebu camau disgyblu a allai arwain at eu diswyddo a'r posibilrwydd o ymchwiliad troseddol os oes tystiolaeth o weithgarwch anghyfreithlon.

6. Bydd gwasanaeth gwirfoddol sy'n torri'r cod ymddygiad yn cael eu hatal ar unwaith. Os oes tystiolaeth o weithgarwch anghyfreithlon, bydd enw'r gwirfoddolwr yn cael ei dynnu i sylw'r awdurdodau perthnasol a gallai ef/hi wynebu ymchwiliad troseddol.



#### **ATODIAD 4 - Cylch Gorchwyl y Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion**

### **CYLCH GORCHWYL Y PANEL CORFFORAETHOL: DIOGELU PLANT AC OEDOLION**

#### **1. CYFLWYNIAD**

Mae Adran 28 Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae'r canlynol yn adlewyrchu'r 'Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol' [a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – Mehefin 2009]. Er bo gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r uwch swyddog o fewn y cyngor a'r atebolrwydd terfynol a diwahân dros ddiogelu plant.

Nid yw'r canlynol yn newid Cyfansoddiad CBSC. Y bwriad yw atgyfnerthu'r trefniadau adrodd presennol.

#### **2. CYLCH GORCHWYL PANEL CORFFORAETHOL CBSC AR GYFER DIOGELU PLANT AC OEDOLION**

Nod y Panel yw sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer diogelwch plant ac oedolion o fewn CBSC.

Bydd y Panel yn gweithredu ar lefel Strategol er mwyn:

- sicrhau Aelodau Arweiniol perthnasol bod gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn o ran materion sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion;
- Dwyn gwaith rhyngadrannol yn y maes diogelu ynghyd a sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn gorfforaethol
- Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor;
- Datrys unrhyw rwystrau posibl a allai fod yn rhwystr rhag bod â gweithdrefnau effeithiol a llwyddiannus yn eu lle
- Adnabod unrhyw fylchau mewn polisïau a chanllawiau corfforaethol, a sicrhau bod unrhyw fylchau o'r fath yn cael sylw, gan weithio'n briodol gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i swyddogion ac aelodau
- Derbyn ac ystyried gwybodaeth ynglŷn â thueddiadau mewn perthynas â honiadau o gam-drin proffesiynol, a mabwysiadu cynlluniau gweithredu er mwyn ymateb petai'r angen yn codi;
- Derbyn a herio gwybodaeth am berfformiad diogelu corfforaethol ac am y cynnydd wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith a gomisiynwyd
- Ystyried a deall goblygiadau Adolygiadau Arferion Plant / Oedolion a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithiol i argymhellion unrhyw adolygiadau o'r fath;
- Derbyn a herio Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol
- Cymeradwyo polisi a Chanllawiau Diogelu pob Gwasanaeth yn y Cyngor a derbyn gwybodaeth am drefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas â'u cyfrifoldebau diogelu;
- Llunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu priodol.

### **3. CADEIRIO**

3.1. Iwan Davies, Y Prif Weithredwr

### **4. AMLDER Y CYFARFODYDD**

4.1. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter

### **5. TREFN LYWODRAETHOL AC ATEBOLRWYDD**

Mae'r Panel corfforaethol yn atebol i Gabinet CBSC. Mae gan y Cadeirydd yr hawl i gyfeirio materion i'r Cabinet os nad yw wedi ei fodloni.

Rheolir Busnes [h.y. creu rhaglen waith, rhaglenni cyfarfodydd, ysgrifenyddiaeth, pwynt cyfathrebu canolog, trefnu derbyn cyngor proffesiynol ychwanegol os oes angen] trwy swyddogaeth Pennaeth y Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu.

### **6. AELODAETH**

Iwan Davies - Y Prif Weithredwr

Jenny Williams – Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg

Kate Devonport - Pennaeth Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu

Claire Lister - Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig

Dr Lowri Brown – Prif Swyddog Addysg

Cyng. Cheryl Carlisle - Aelod Cabinet Plant, Teuluoedd a Diogelu

Y Cynghorydd Liz Roberts – Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau Integredig

Peter Brown - Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai  
Phil Davies - Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol  
Sarah Ecob - Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda  
Huw Mckee – Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol  
Helen Hobson - Rheolwr Budd-daliadau  
Marianne Jackson - Pennaeth y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol  
Mike Halstead - Pennaeth Archwilio a Chaffael  
Geraint Edwards - Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau  
Delyth E Jones – Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Gwasanaethau Cyfreithiol  
Rachel Gill – Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata  
Rhiannon Lloyd - Rheolwr Gwasanaeth Diogelu



### **ATODIAD – Mesur Effaith a Monitro**

Er mwyn sicrhau bod cydymffurfiad llawn â'r gweithdrefnau sydd wedi eu cynnwys yn y polisi diogelu corfforaeth ar draws y Cyngor, a'u bod yn sicrhau effaith gadarnhaol ar fywydau plant, pobl ifanc ac oedolion o'u gweithredu, mae'n hanfodol bwysig bod y camau canlynol yn digwydd:

- Mae'n hanfodol bod y polisi'n cael ei gyfleu'n effeithiol i bob aelod o staff, cynghorwyr, gwirfoddolwyr, plant, rhieni, gofalwyr ac unrhyw un arall sy'n cael ei effeithio;
- Mae gan Rheolwyr Diogelu Dynodedig yn yr Adrannau gyfrifoldeb i sicrhau bod eu holl staff yn gyfarwydd â'r polisi a'r gweithdrefnau atodol;
- Mae gan bob Adran yn y Cyngor gyfrifoldeb i ddatblygu polisi diogelu sy'n benodol i'w gwasanaeth eu hunain, gan amlgu sut y bydd eu canllawiau mewnol yn cydymffurfio gyda'r polisi corfforaethol ac yn rhoi ystyriaeth i'r Canllawiau Cenedlaethol ym maes amddiffyn plant a diogelu oedolion diamddiffyn;
- Mae gan bob aelod o staff, cynghorwyr a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb unigol i fod yn eiriol dros y polisi ac i'w hyrwyddo i sefydliadau neu bartneriaid, ac i sicrhau bod gwerthoedd ac egwyddorion y Cyngor yn y maes diogelu yn cael ei gyfleu'n glir i blant, i'w rhieni, i ofalwyr a'r cyhoedd;
- Sicrhau bod pob Adran yn datblygu prosesau sicrhau ansawdd er mwyn mynd ati'n rheolaidd i archwilio cydymffurfiaeth â'r polisi a'r gweithdrefnau ac adrodd wrth y Panel Strategol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion ynglŷn ag unrhyw lwyddiannau, methiannau, neu raglenni gwella o fewn eu hadrannau;
- Sicrhau bod gwybodaeth am bob honiad o gam-drin yn cael ei adrodd i'r Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac oedolion yn ogystal ag i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol;

- Sicrhau bod pob adran yn amlygu fod diogelu yn brif flaenoriaeth yn eu cynlluniau busnes, ac yn sicrhau bod pob gweithgaredd yn rhoi ystyriaeth i faterion diogelu fel mater o drefn;
- Sicrhau bod pob adran yn datblygu dangosyddion lleol yn y maes diogelu, ac yn adrodd bob chwarter yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol o fonitro perfformiad;
- Sicrhau adborth gan staff y Cyngor o ran gweithgarwch yn y maes diogelu ac o ran sut mae eu rheolwyr atebol yn eu cefnogi i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn;
- Sicrhau trwy gynnal digwyddiadau cyfranogi ac ymgysylltu fod plant, pobl ifanc ac oedolion yn teimlo'n ddiogel ymhob agwedd o'u bywydau a bod gweithgareddau'r Cyngor yn y maes diogelu yn cyfrannu at eu hymdeimlad o fod yn ddiogel;
- Sicrhau bod hunan asesu'n digwydd yn rheolaidd mewn ysgolion i wella arferion diogelu ymhob ysgol;
- Sicrhau bod adolygiad blynyddol cyfansawdd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ynglŷn â gweithgarwch y Cyngor yn y maes diogelu;
- Sicrhau bod rhaglen hyfforddiant ar gael ar bob lefel a fydd yn rhaeadru i bob aelod o staff yn ôl eu hanghenion, a sicrhau hefyd bod yr hyfforddiant gloywi yn digwydd yn rheolaidd;
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a fydd yn darparu gwybodaeth am unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelu, gweithgarwch, adborth, o'r adolygiad achos difrifol a chynnydd yn erbyn cynllun gweithredu;
- Sicrhau bod unrhyw wasanaeth a gomisiynir gan neu ar ran y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r disgwyliadau o ran diogelu sy'n cael eu hamlinellu yn y cytundeb



## ATODIAD 6 – Tabled Polisi Gwasanaeth

### **Polisi Diogelu Corfforaethol**

### **Tabled Polisi Cyfarwyddiaeth / Gwasanaeth Model**

Mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddiaeth a Maes Gwasanaeth fabwysiadu a gweithredu Polisi Diogelu Corfforaethol

Yn ogystal, efallai y bydd angen Polisi Diogelu penodol ar feysydd gwaith penodol i adlewyrchu'r maes gwasanaeth unigol hwnnw.

Os ystyrir bod hyn yn briodol, rhaid cyfeirio'n llawn at y Polisi Diogelu Corfforaethol a Gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion

Mae'n rhaid cynnwys y meysydd canlynol ymhob Polisi Gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth fel isafswm:

- Diben ac Amcanion
- Egwyddorion Diogelu Gwasanaeth
- Gweithdrefnau sy'n benodol i'r gwasanaeth (fel y bo'n briodol)
- Nodi'r Swyddog Diogelu Dynodedig
- Cyfrifoldebau Diogelu pob aelod o staff
- Cyfrifoldebau Diogelu pob rheolwr atebol

## **ATODIAD 7 – Dogfennaeth / Deddfwriaethau a Chanllawiau Perthnasol**

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

“Mewn Dwylo Diogel”

Polisiâu a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Rhag Camdriniaeth 2013 Deddf Plant 1989 a 2004

Deddf Cydraddoldeb 2010

Deddf Hawliau Dynol 1998

Deddf Gallu Meddyliol 2005

Mwy na Geiriau (2016)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Cyfrol 5 Cod Ymarfer – Mynd i'r Afael ag Achosion Unigol i Ddiogelu Plant mewn Perygl

Cyfrol 6 Cod Ymarfer – Mynd i'r Afael ag Achosion Unigol i Ddiogelu Oedolion mewn Perygl